


W935.5.216



Cwyn yr Unig,

ac

OCH'NEIDIAU HIRAETH,

AM

Jane Williams,

A ymadawodd ar Byd hwn, Hydref 24,

1827.

YN 68 O'T HOED.

Gan HIRAETHLAWN.


' Y rhai a garcharwyd a lawenychant mewn hyfrydwch, ac a orfoleddant pan gaffont y bedd, yno y gorphwys y rhai lluddiedig. Job.

Y pen fu'n llawn dŵlur a chur
Does ynddo na gwayw na gwŷn,
'Ramrantan heb gauad fu'n hir,
A gauodd a melus yw'r hun,
Y llygaid galarns fu e'yd,
Yn wyllo gan ofid mor brudd,
Fe sychodd y ffynon i gyd,
Ni wlychir byth etto, mo'i grudd.

Y galon, a gurodd yn ddwys,
Heb orphwys, flwynyddau, tra mawr,
Sy'n esmwyth, dan geuded y gwys,
Heb guro, un ergyd y'nawr,
Y nwydau, naturiol, eu gyd,
Ddiffoddwyd, 'ddont mwyach i'w chwrrd,
Eiddigedd a ch'wilydd, a llid,
O'i mbynwes, a ffoisant i fiwrdd.

X205 317 110

15140



EWYN YR UNIG
AC OCH'NEIDIAU HIRAETH

- 1 **D**AETH yr amser, daeth yr amser,
Daeth y dydd, fe ddaeth yr awr,
Daeth y fynud, ac y darfu,
Ini'n hir e'i hofni'n fawr,
Jane anwylaf, daeth y flwyddyn,
Y mis, y dydd, ar awr anwiw,
Daeth, fe ddaeth, y fynud ola'
Drefnodd arfaeth iddi fyw.
- 2 Hir y'm twyllwyd gan feddgyon,
D'wedent im' o bryd i bryd,
Fod arwyddian brâf y gwella'i
Er e'i dolur brwnt e'u gyd,
Dwededent am e'u drugs a'i physyg,
A rhyw foddion fwy na mwy,
Nes o'r diwedd, braidd na dd'wedent,
Nad oedd angau'n drech na hwy.
- 3 Ond yn awr, fe ddarfu gobaith
Darfu gobaith am wellhau,
Darfu gobaith am ddychwelyd,
Yn ei hol or man lle mae ;*
Gellir disgwyl dyn o ryfel,
Yn ei ol i dd'od mewn hedd,
Ond ni ellir disgwyl un-dyn
Byth yn ol o byrth y bêdd.
- 4 Rhaid resolfo rhaid nae'n debyg,
Er na wn i ddim pwy lûn ?
Peidio ewyno, ac och'neidio,
Gwyno nad oes gennyf ddyn,

15140

P WGI 6.12

* Yr hwn sydd yn disgyn i'r bedd—ni ddychwel mwy i'w dŷ, ai le
nau o'r enw of mwy." Job.—Does beiddio i dre, or bedd draw.

Does gennyf ddyn i gyd-ofidio,
 Na chydym'deimlo, a mi mwy,
 Rhaid im gario'r baich fy hunan,
 Neu gwmpo dano'r fan lle bwy.

5 Gwell yw dau nac un rwy'n gwybod,†
 Ond gwae'r unig, fel w'y'nawr,
 Nad oes ganddo ail iw godi,
 Wedi iddo syrthio i lawr;
 Rwy'n rhyfeddu, nid yn beio,
 Trefn Arfaeth Nefoedd fry,
 Os nid da bod dyn ei hunan
 P'am y trefnwyd hyn i mi?

6 O'r cyfnewid mawr ddaeth arnaf,
 Wedi colli f'anwyl un,
 Er fy mod ynghanol cartre
 Nid wyf ond dieithr ddyn,
 Oer yw'r tŷ, ar tân, ar gwelu,
 Oer yw pob-peth yn y byd,
 Ac oer iawn yw nghalon inau,
 Attynt hwythau oll eu gyd.

7 Trwm yw tywod mân y moro'dd,
 Ond er trymed ydynt liwy,
 Trymach yw Och'neidiau hiraeth,
 Mewn clorianau pwysent fwy,
 Ond er cwyno a hirethu,
 Bellach byth nis gwelaf hi,
 Yn y ty, na'r ma's na'r Eglwys,
 Nac yu un man gyd a mi.

† Gwell yw dau nag un—os syrthiant, y naill a gyfyd y llall, ond gwao yr unig, pan syrthio efe, nid oes ail i'w gyfodi. SOLOMON.

8 Myned at y bedd i wyllo,
 Mae fy meddwl, heb nacau,
 Er e'i ragod, ceisio e'i rwystro,
 Rhag myn'd yno, myn'd y mae,
 'Does neb, does dim o dan y Nefoedd,
 Trwy gydol faith, y nos ar dydd,
 Y'nawr yn destun fy myfyrdod,
 Ond yr un sydd yn y pridd.

9 Ac er gwybod, heb amheuaeth,
 Ei bod wrth Bethesda draw
 Dan y ddaear, yn oer dduo,
 Pridd yw'r llygad, pridd yw'r llaw,
 Mae nychymyg* imi'n haeru,
 'Mod i'n gwel'd e'i hawddgar lun,
 Weithiau yma, weithiau accw,
 Weithiau'n eistedd wrth fy nghlu

10 Mi ffansiaf gyda phleser,
 Mod i'n clywed sw'n ei chän,
 Mor felus-ber yn fy ymyl,
 Fel y clyw'swn hi or bla'n,
 Cyn pen mynud, try'r hyfrydwch,
 Oll i' gyd yn dristwch im,
 Nid oedd yno ond fy hunan,
 Nid o'wn i yn clywed dim.

11 Meddwl wnawn, a meddwl eilwaith,
 Teimlo nghalon oll yn glaf,
 Gwel'd ei hail hi na i chyffelyb,
 Ar y ddaear, byth ni chaf,
 Pawb yn awr yn myned heibio,
 Rhai ar aswy, rhai ar dde',
 Neb am wrando cwyn yr unig,
 Ai och'neidiau trymion E.

* Rhyfedd yw gallu'r meddwl, i ddarlunio peth, fel y gall dyn yn ei feddwl, olygu peth absenol, fel pe bae yn bresenol, peth nad yw—na bu—ac na bydd, fel pe bae!!!

12 Af im gwelu'n oer fy nghalon,
 Ac och neidiau trymion rhôf,
 Braidd bydd awr o'r hir-nos yno,
 Na fydd hithau ar fy nghof;
 Pryd ymedu'r nos ofynaf?
 Pryd yr egur dorau'r wawr?
 Yn lle'r amser braf a welais,
 Dyna'r byd sydd arna'i nawr.

13 Nosweithiau blin a llawn o ofid,
 A osodwyd imi'n wir,
 Pödd y gallaf sefyll tanynt,
 'Safaf tanynt ddim yn hir,
 Mae da, mae dyn, mae pobpeth arallgyfnewid,
 Yn cefnu arnaf, cefnant mwyl,
 Er pan collais f'anwyl Jiny,
 Rwy fi'nau'n cefnu arnynt hwy.

14 Fy nghyfeillion galsech ad'el,
 Drws y carchar lle rhowd hi,
 Yn agored buasau'ch trafferth,
 Beth yn llai im' gosod i,
 Mae angau hyll a golwg erwin,
 Yn edrych arnaf bob yr awr,
 Nid oedd achos caead arni,
 'Rwy bron myned ati lawr.

15 Collwyd mamaeth yn yr Eglwys,
 [Neb a'i colled fel my fi,]
 Pawb o rheimi a'i hadwaenent,
 Mam yn Israel galwent hi,
 Ar y mur hi wnaeth ystafell,*
 Ir prophwydi yno droi,
 Bwrdd a gwelu a chanhwyllbren,
 Yno'n drefnus wedi roi.

* Fel y gwnaeth y Sunamees dda hono, yn 2 Br. 4, 10.

- 16 Pump o flwyddau ond rhyw 'chydig,
Gadd o gystudd trwm ei ryw,
Ymostyngodd heb yn ynfyd,
Roddi dim yn erbyn Duw,
Poena dolur yn dymhestlo'dd,
Yma'i daliodd yn ei dydd,
Wedi blwyddau hir o garchar,
Rho'wd ei thra'd yn berfaith rydd.
- 17 Pan oedd ei chorff, oedd gorff o'r hardda,
Un diwrnod wedi bod,
Yn awr yn wael, yn drwm, yn glafaidd,
Heb allu troi na symud tro'd,
Rhosyn, tecca'r greadigaeth,
Pan oedd gwiwdod, ar ei gwedd,
Adroddai'n llon, am gyfnewidiad,*
Wrth edrych, dros gyffiniau'r bedd.
- 18 ' Cyfnewidiad, pell uwch deall,
' A syniadau isel dyn,
' Ond a wneir trwy'r hwn a ddichon,
' Ddarostwng pob-peth iddo ei hun,
' Cyfnewid corff sydd wael a marwol,
' Gwan, llygredig, fel wy' nawr,
' Am gorff anfarwol, anllygredig,
' Têg a hardd fel borau wawr.
- 19 Pan oedd e'i dydd diwedda'n agos,
Minau'n wylo, wel'd fy ffrynd,
Ebe hithau pan i'm gweloch,
' Oddiwrthych wedi myn'd,
' Fel Dafydd gwnewch pan farw'r plentyn,†
' Rho'wch heibio'ch galar o bob rhyw,
' Ewch ir Deml fel aeth yntau,
' Plygwch, ac addolwch Dduw.

* Mynych yr adroddai hi, Phil. 3, 21, * yr hwn a gyfnewidia ein corff gwael ni. † Yna Dafydd a gyfododd oddiar y ddaear ac a ymolchodd ac a newidiodde'i ddillad, ac a aeth i dy y'r Arglwydd, ac a addolodd. 2 Sam. 12 20.

- 20 O ddechreu nos, hyd y borau,
 Hi fu'n llif yr afon fawr,
 Cyraedd wnaeth, y tir dymunol,
 'Chydig bach, cyn tori'r wawr;
 Noswaith arw, oedd y noswaith,
 Noswaith arw iawn i mi,
 Edrych arni, methu edrych,
 Ar e'i hymdrech caled hi.
- 21 Pan oedd angau'n euro arni,
 Ai ergydion diwyd llawn,
 Cymorth dyn yn lân yn darfod,
 Ebe hitbau'n dawel iawn;
 " Wel, ai dyma beth yw angau,
 " Fel mae'n rhwygo mhabell glai,
 " Tyred, Argiwydd Iesu, tyred,
 " Brysia'n fuan im' rhyddhau.
- 22 Yna'i henaid, ymadawodd,*
 Diange wnaeth e'i hysbryd byw,
 Rhwng fy nwylaw, heibio'm llygaid,
 Heb im' weled llŷn na lliw;
 'Drychais arni, a d, wedais,
 Darfu e'i chariad darfu ei chās,
 Darfu teimlad, gwres, a bywyd,
 Aeth yr ana'l ola' i ma's.
- 23 Cyn i dri'gain lawn o oriau,
 Fyn'd i ma's 'ro'dd rai i mi,
 Er mor anhawdd rhaid oedd d'wedyd,
 O fy ngoi'wg ciedowch hi;
 Darfu, darfu, cysur daear,
 Darfu, darfu, cysur dyn,
 Rhaid im' 'drellio gweddill f'eiinioes,
 I alaru wrthyf f' hun.

* Sylwedd ysbryd byw enaid dyn; tra mae yn y corph mae'n cael ei alw fyn chaf yn enaid ac wedi yr ôl allan o'r corph yn ysbryd; er gweled ein cyfeillion a'n perthynasau yn marw gwybod fod eu henaid yn ymadael-ninain er edrych arnynt, nid ydym yn teimlo nac yn gweled dim ysbryd yw!!!

- 24 Wrth alaru, a galaru,
 Tybiais, im 'ei chlywed hi,
 Yn d'weid wrthyf, [och, or d'wediad],
 Ni ddychwelaf atoch' chwi,
 Byddwch ddistaw a gobeithiol,
 Yn anystyriol na thristewch,
 Yn mhen dyddiau, byr i ddyfod,
 Lle rwyf finau, chwithau ddewch.
- 25 Nid oes genyf barch i'w roddi,
 Mwy i Jiny, ddiangodd draw,
 Ond gwneud Cân, os gallaf baro,
 Gôd am dan'r oes a ddaw,
 Diwedd glân, ei hymarwëddiad,
 Sydd yn deilwng o'i goffai
 Ffydd yr hon, dilynwn ninau,
 Nes myn'd attir man lle mae.
- 26 Pegy bellach, gâd och'neidio,
 Beth dal wylo'rh ddyddiau gyd,
 Er i anwyl Fam, dy ad'el,
 Yn yr anial, mawr e'i hyd,
 Duw wnaeth gammi, yn dy goelbren,†
 Ac nid oes, o dan y Ne,
 Trwy un ddyfais, all unioni,
 Byth, mo'r peth, a gamodd E.
- 27 Cwmwl du-dew iawn, ddaeth arnom,
 Gwelwn, er mor daued yw,
 Fod yn 'Scrifenedig, arno,
 Yn dra amlwg; *Gorchwyl Duro*,
 Os yw'r gochwyl gan mor hynod,
 Wedi'n rhoddin eitha synn,
 Beth yw'r diben, ffaelu canfod,
 Ni gawn wybod, ar ol hyn.

† Edrych ar orchwyl Duw: canys pwy a all unioni 'r peth a gamodd i
 fe? neb. Y mae efe yn ùn a phwy a try ef? ar hyn y mae efe yn ei
 awenych efe ai gwna. Preg. 7, 13.---Job 23, 13 14.

Ua o dd'wediadau cyffredin, testun y gwyn hon ydoedd. "Efe a gyfl-
 wna yr hyn a g'odwyd i mi."

28 Wedi'n harwain, oddiamgylch,
 Ol, a gwrthol, traws a hyd
 Llwybrau dyrus, ceimion garw,
 Croes, anwastad bron e'i gyd,
 Fry ir ddinas gyfane idol,
 Os cyrhaeddwn, gwel'd a gawn,
 Ma'e camsynied, gynt a wnaethom,
 Fod y ffordd, yn uniawn iawn.

29 Deuwch, *Pegy, John, a Thomas,*
 Gyd a chwi, mi ddof fy hun,
 A wn i wrando'r athraw Nefol,
 Geiriau grasol mab y dyn,
 With ei dra'd, ni gyd eisteddwn,
 Ni chwedleuwn, am ei ras
 Nes trwy groesau'r byd a'i adfyd,
 In i dreilio'n dyddiau ma's.

30 Mi ddych'mygaïs pan aeth Jiny,
 Fry at drothwy'r Ddinas bur,
 I *Mair, a Susan, a Joana,**
 E'i groesawi i'r Nefol dir,
 Mi ddych'mygaïs, fil o bethau,
 Mil o bethau, na fu rio'd,
 Pethau, nad oes sail gan reswm,
 Nag ysgrythur, iddynt fod.

* Y gwagedd hyn a gwagedd eraill lawer a ganlynodd yr Iesu o Galilea i Jerusalem mwy mae'n debyg na chau milledir o ffordd gan weini iddo o'r pethau oedd ganddynt. Mat. 27, Mar. 15.

Mynych y gwelir eto, gariad, haelioni, a zel gwagedd-at achos Iesu yn rhagori, dwy fenyw, ysgatidd yn gwrandio gair Duw, am un gwryw, un o'r cyfryw oedd testun y gwyn hon.

Pan oedd Tywysog bywyd, yn teithio'n dyrus fyd,
 O bawb careiddiaf dynion oedd gwagedd iddo gyd,
 Gan weini at ei angen, o gariad pur heb ball,
 O Gali' i Judea, o deriyn gwlad ir llall.

31 Taw nychymyg, ath freuddwydion,
 O freuddwydion, nid oes un,
 Mor beryglus, a breuddwydion,
 Liw dydd golau, ar ddihun,*
 Ni chlywodd clust, ni welodd llygad,
 Ddychmygodd calon dyn erio'd,
 Beth yw'r iaith, na 'pheth yw'r drefn,
 Sydd ofewn ir Nef yn bod.†

32 *James* *ffyddlonaf, collais yntau,
 Fu erioed mwy ffyddlon ddyn,
 Byddai ngofid I yn wastad,
 Yn wir ofid iddo'i hân.
 Beth wnaf ar y ddaear bellach,
 Tristwch, yma sydd o hyd,
 Draw, ar diro'dd, y wlad arall,
 Mae nghyfeillion gorau gyd.

33 'Nawr, mi welaf, mae ynfydrwydd,
 Ydyw'r meddwl, byw'n y Byd,
 Adeiladu, a Thrafferthu,
 Ar gofalu, mawr e'u gyd,
 Caru gwraig, na phlant, nag un-peth,
 Pa ynfydrwydd, all fod fwy?
 Yn y bedd, mewn dyddiau byrion,
 Y bydd naill a'i fi neu hwy.

* Our waking dreams are fatal. YOUNG.

† Y mae Watts yn awr yn addef,
 Mae newyddion sy'yno gyd,
 Ac mae rhyfio ynddo dd'wedodd,
 Gynt am drefn nefol fyd,
 Y mae synwyr Lock a Newton,
 Er eu mheithder er eu grym,
 A rhesymau manwl Baxter,
 Yno wedi myn'd yn ddim.

W. WILLIAMS.

* Thomas James of Maes aril a fu farw Ionawr 29, 1828, yn 68 o'i oed, Israeliad y wir.

34 Deg ar hugain o flynyddau,
 Bŷm yn hau, trwy hyd y rhain,
 Syrthio wnaeth, yr hâd gan mwya,
 Wrth y ffordd, y graig, ar drain,
 Mewn tir da ni syrthiodd nemawr,
 Nemawr iawn; fe syrthiodd peth,
 Gwlith y Nef, arso arno,
 Fel nad elo, fyth ar fêth.

35 O! Bethesda, anioleghar,
 Ac anghofus iawn, o Dduw,
 Wedi hau, a hau drachef'n
 Braidd eginin, sydd yn fyw,
 Mae'r hen frodyr*, ond rhyw' ehydig,
 Wedi myned, draw i dre',
 Ac nid oes arwyddion nemawr,
 Am rai eraill, yn ei lle.

36 *Jiny* ffyddlon collaist hithau,
 Rhaid oedd colli hon, roedd rhaid,
 Hir ymdrechodd yn egniol,
 Gydar Nefoedd, yn dy blaid,
 Gwynt a glaw, a rhew ac eira,
 Tystion yw dy furiau di,
 Bydded eisau'r neb a fyddai,
 Byth yn eisiau, nid oedd hi.

37 Mae proffeswyr, a'u teimladau,
 'Nawr mor dyner, nad ant trwy,
 Wres nag oerfel, i addoliad,
 O fewn milldir fach neu ddwy,
 Rhaid cael Templau'n agos, agos,
 Ty cwrdd yma, Ty cwrdd draw,
 Gormod taith, yw cerdded milldir,
 'Chwaethach' cerdded, w'yth neu naw.

* Yr hen frodyr, pa le maent hwy? maent yn gorwedd yn y pentwr---A
 gânt hwy orwedd yno byth? na eiant, y rhai a hunant yn yr lesu a ddwy
 Duw hefyd gyda ag ef.

O forau'r adgyfodiad, mi gwela draw o bell,
 Na myrdd o longau'r fridia, yn dwyn trysorau gwell.

38 Ble mae'r hen awelon hyfryd?
 Bywiog, grymus, glywais I,
 Torf yn crynu, rhai yn gwaeddi,
 Trowch ni or fyddin, elwyfwyd ni,
 Tyred Arglwydd, nes dy ddyfod,
 Ni ddeffroir, ni chlwfir un,
 Er cael Gwas, a ffon y prophwyd,
 Nes daw'r prophwyd mawr ei hun*.

39 O! na ddoi rhyw un, or gogledd,
 Neu or dwyrain, yntau'r de,
 Or gorllewin neu o ryw-le
 Ni waeth genyf, ddim o ble,
 Ond ir Neloedd fawr ei anfon,†
 (Heb ei anfon thal e ddim),
 I Bethesda, i Bregethu,
 Gair y bywyd, yn ei rym.

40. Rwy'n rhoi'r gorchwyl byth i fynu,
 Wedi rhoi, nid rhof ryw bryd,
 Mae fy'ngwaith, os gwaith fu genyf,
 Wedi darfo heddyw gyd,
 Fy'ngwaith yn awr, am gwaith fydd etto,
 Dymuno, a disgwyl bob yr awr,
 I'r hyn sydd bridd, ir pridd gael myned,
 Wrth ochor mur Bethesda i lawr.

* Ni allai Gehazi gyfodi'r marw er cael ffon ei feistr nes ir Prophwyd
 adyfod ei hun, felly ni ddichon Pregethwyr y gair fywhau un enaid oni fydd
 vshryd Duw yn cyd-weithio. P. WILLIAMS, ar 2 Br. 4.

† Pa fodd y pregethant onis danfonir hwynt? am hyny atolygweh i
 Arglwydd y cy'nhauf anfon gweithwyr i'w gynhauf. Rhuf. 10, 15. Mat.
 9, 38.

TERFYN.



Argraphwyd gan DANIEL LLOYD.